# PWYLLGOR TRWYDDEDU

# DYDD LLUN, 7 TACHWEDD 2022

**PRESENNOL** Cynghorydd   (Cadeirydd)

**Cynghorwyr (Yn y Siambr):**

| | | |
|---|---|---|
| P. Cooper | H. Jones | B.D.J. Phillips |

**Cynghorwyr (Yn rhithwir):**

| | | | |
|---|---|---|---|
| A. Evans | W.T. Evans | J.K. Howell | D. Jones |

**Hefyd yn bresennol (yn y Siambr):**
A. Vaughan-Owen, Aelod Cabinet dros Newid yr Hinsawdd, Datgarboneiddio a Chynaliadwyedd

**Roedd y swyddogion canlynol yn bresennol (Yn y Siambr):**
R. Edgecombe, Rheolwr y Gwasanaethau Cyfreithiol
E. Evans, Prif Swyddog Gwasanaethau Democrataidd
S. Rees, Cyfieithydd Ar Y Pryd
J. Owens, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd (cymerwr y cofnodion)

**Roedd y swyddogion canlynol yn bresennol (Yn rhithwir):**

D. Bizby, Cynrychiolydd Awdurdod Heddlu Dyfed-Powys
J. Power, Uwch Swyddog Trwyddedu
K. Thomas, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

**Siambr,  Neuadd Y Sir, Caerfyrddin, SA31 1JP - 10.00 yb - 12.02 yp**

## 1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB.

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr S. Curry, K. Madge, L. Roberts a D.E.W. Williams. Dywedodd y Cadeirydd  y byddai'r Cynghorydd W.T. Evans yn hwyr yn ymuno â'r cyfarfod.

## 2. DATGANIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL.

Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau personol.

## 3. LLOFNODI YN GOFNOD CYWIR COFNODION CYFARFOD YR ISBWYLLGOR TRWYDDEDU "B" A GYNHALIWYD AR 18FED HYDREF, 2022.

**PENDERFYNWYD llofnodi bod cofnodion cyfarfod Is-bwyllgor Trwyddedu 'B' a gynhaliwyd ar 18 Hydref 2022 yn gofnod cywir.**

**4. LLOFNODI YN GOFNOD CYWIR COFNODION CYFARFOD Y PWYLLGOR TRWYDDEDU A GYNHALIWYD AR 11EG HYDREF, 2022.**

**PENDERFYNWYD llofnodi bod cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Trwyddedu oedd wedi ei gynnal ar 11 Hydref, 2022 yn gofnod cywir.**

**5. GORCHYMYN I'R CYHOEDD ADAEL Y CYFARFOD.**

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL, yn unol â Deddf Llywodraeth Leol 1972, fel y'i newidiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywio) (Cymru) 2007, orchymyn i'r cyhoedd adael y cyfarfod tra oedd yr eitemau canlynol yn cael eu hystyried, gan fod yr adroddiadau'n cynnwys gwybodaeth eithriedig fel y'i diffiniwyd ym mharagraff 12 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf.**

**6. MR SHAUN CRAIG LANE CAIS AM DRWYDDED YRRU DDEUOL CERBYD HACNAI/HURIO PREIFAT.**

Bu'r Pwyllgor yn ystyried y cais gan Mr Shaun Craig Lane o 6 Bryn Dreinog, Capel Hendre, Rhydaman am Drwydded Yrru Ddeuol ar gyfer Cerbyd Hacnai/Hurio Preifat.

Bu'r Pwyllgor yn cyfweld â Mr Lane ynghylch ei gais a'r materion a godwyd gan yr Uwch-swyddog Trwyddedu.

Argymhellodd yr Uwch-swyddog Trwyddedu fod cais Mr Lane yn cael ei wrthod.

Ar hynny

**PENDERFYNODD Y PWYLLGOR YN UNFRYDOL gynnal sesiwn preifat er mwyn cael cyngor cyfreithiol yn unol â Pharagraff 16 o Atodlen 12A i Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.**

Ar ôl y toriad, ailymgynullodd y Pwyllgor i roi ei benderfyniad.

**PENDERFYNWYD caniatáu cais Mr Shaun Craig Lane am Drwydded Yrru Ddeuol ar gyfer Cerbyd Hacnai/Hurio Preifat.**

<u>Rheswm</u>
Ar sail y dystiolaeth a gyflwynwyd, yr oedd y Pwyllgor yn fodlon bod yr ymgeisydd yn rhywun addas a phriodol i feddu ar drwydded.

**7. MR KEVIN JONES CAIS AM DRWYDDED YRRU DDEUOL CERBYD HACNAI/HURIO PREIFAT.**

Bu'r Pwyllgor yn ystyried cais gan Mr Kevin Jones o 96 Trem y Bryn, Caerfyrddin am Drwydded Yrru Ddeuol ar gyfer Cerbyd Hacnai/Hurio Preifat.

Bu'r Pwyllgor yn cyfweld â Mr Phillips ynghylch ei gais a'r materion a godwyd gan yr Uwch-swyddog Trwyddedu.

Argymhellodd yr Uwch-swyddog Trwyddedu fod cais Mr Jones yn cael ei wrthod.

Ar hynny

**PENDERFYNODD Y PWYLLGOR YN UNFRYDOL gynnal sesiwn preifat er mwyn cael cyngor cyfreithiol yn unol â Pharagraff 16 o Atodlen 12A i Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.**

Ar ôl y toriad, ailymgynullodd y Pwyllgor i roi ei benderfyniad.

**PENDERFYNWYD ganiatáu cais Mr Kevin Jones am Drwydded Yrru Ddeuol ar gyfer Cerbyd Hacnai/Hurio Preifat.**

Rheswm
Ar sail y dystiolaeth a gyflwynwyd, yr oedd y Pwyllgor yn fodlon bod yr ymgeisydd yn rhywun addas a phriodol i feddu ar drwydded.

**8. MR STUART PROTHEROE TRWYDDED YRRU DDEUOL CERBYD HACNAI/HURIO PREIFAT.**

Rhoddwyd gwybod i'r Pwyllgor fod Mr Stuart Protheroe o 14 Heol Buckley, Llanelli, yn meddu ar Drwydded Yrru Ddeuol ar gyfer Cerbyd Hacnai/Hurio Preifat gyda'r Awdurdod.

Rhoddodd yr Uwch-swyddog Trwyddedu wybod i aelodau'r Pwyllgor am y materion a oedd wedi codi mewn perthynas â'i drwydded.

Bu'r Pwyllgor yn cyfweld â Mr Protheroe ynghylch ei gais a'r materion a godwyd gan yr Uwch-swyddog Trwyddedu.

Argymhellodd yr Uwch-swyddog Trwyddedu fod cais Mr Protheroe yn cael ei ddiddymu.

Ar hynny:

**PENDERFYNODD Y PWYLLGOR YN UNFRYDOL gynnal sesiwn preifat er mwyn cael cyngor cyfreithiol yn unol â Pharagraff 16 o Atodlen 12A i Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.**

Ar ôl y toriad, ailymgynullodd y Pwyllgor i roi ei benderfyniad.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL, yn unol â chyngor y Swyddog, i ddiddymu Trwydded Yrru Ddeuol Mr Stuart Prothero ar gyfer Cerbyd Hacnai/Hurio Preifat.**

Rheswm:

Ar sail y dystiolaeth a gyflwynwyd, roedd y Pwyllgor yn fodlon bod achos rhesymol dros ddiddymu'r drwydded.

CHAIR                                        DATE